# PWYLLGOR SAFONAU, 13.04.11

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Keith Greenly-Jones a Margaret Griffith.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr John Pollard (Cadeirydd), Mr Gwilym Ellis Evans a Mr Malcolm Jones.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Mr David Clay.

**Hefyd yn Bresennol:** Dilys Phillips (Swyddog Monitro), Iwan Evans (Dirprwy Swyddog Monitro), Sion Huws (Swyddog Priodoldeb) ac Eirian Roberts (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:-** Mr Sam Soysa a Mr Gwyn Williams (Aelodau Annibynnol).

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Holodd y Cynghorydd Margaret Griffith a ddylai ddatgan buddiant yn eitem 10 ar y rhaglen gan ei bod yn perthyn i'r un grŵp gwleidyddol â'r achwynydd ac fe'i chynghorwyd gan y Swyddog Monitro nad oedd hynny'n creu buddiant.

Nododd y Swyddog Monitro ymhellach ei bod hithau'n cael ei henwi yn y papurau yn eitem 10 fel person sy'n cyfrannu tystiolaeth. Gan hynny, ni fyddai'n cynghori'r pwyllgor ar y gŵyn a byddai'n gadael yr ystafell cyn trafod yr eitem.

**2. YMDDISWYDDIAD**

Adroddodd y Cadeirydd fod y Cynghorydd Stephen Churchman wedi ymddiswyddo o'r pwyllgor hwn oherwydd iddo dderbyn sedd wag y Democratiaid Rhyddfrydol ar Fwrdd y Cyngor oddi ar 5 Ebrill.

Mynegodd yr aelodau eu gwerthfawrogiad o gyfraniad y Cynghorydd Churchman i waith y pwyllgor hwn dros nifer o flynyddoedd a nododd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at yr aelod yn dilyn y cyfarfod hwn.

Nododd y Swyddog Monitro fod y broses o sicrhau olynydd i'r Cynghorydd Churchman ar y Pwyllgor Safonau wedi cychwyn eisoes ac y gobeithid gwneud penodiad yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 12 Mai.

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Ionawr a 28 Chwefror, 2011, fel rhai cywir.

**4. SYLWADAU AR GYFARFOD LLAWN Y CYNGOR**

Cyflwynwyd - adroddiad gan aelodau'r pwyllgor fu'n arsylwi ar gyfarfod y Cyngor llawn ar 1 Mawrth, 2011.

Diolchodd y Swyddog Monitro i'r tri aelod am eu presenoldeb ar y diwrnod ac am roi adroddiad mor glodwiw i'r aelodau.

Nododd yr aelodau iddynt fwynhau'r profiad, ond bod yna broblem sain yn yr oriel gyhoeddus gan nad oedd yn hawdd clywed pob cynghorydd yn siarad. 'Roedd yn ymddangos fod y cyfieithwyr yn cael anhawster clywed hefyd oherwydd 'roedd yna saib yn y cyfieithu ar brydiau.

Nododd y Swyddog Monitro fod yna fwriad i uwchraddio'r Siambr yn ystod yr haf ac y byddai'r gwaith hwnnw'n cynnwys rhoi ystyriaeth i'r system sain a'r meicroffonau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 5. CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor adolygu ei gylch gorchwyl ac ystyried os oes materion y cred y dylid eu hychwanegu ato.

Eglurodd y Swyddog Monitro ymhellach y gellid cynnig syniadau er ystyriaeth yn y cyfarfod hwn neu yn ystod y flwyddyn i ddod oherwydd y bwriedid adolygu Cyfansoddiad y Cyngor yn ei gyfanrwydd ar gyfer y Cyngor newydd ym Mai 2012.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd, eglurodd y Swyddog Monitro fod y cyfeiriad yn yr adroddiad at y swyddogaeth o hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan rieni-lywodraethwyr yn cyfeirio'n benodol at y tri chynrychiolydd sy'n aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc. Awgrymodd y Cadeirydd efallai nad oedd hynny'n glir o'r adroddiad.

Gan gyfeirio at y polisïau a restrwyd ym mharagraff 4 o'r adroddiad, cwestiynodd aelod ai swyddogaeth y Pwyllgor Safonau oedd edrych ar faterion staff, megis y Polisi Rhoddion a Lletygarwch Staff a'r Polisi Buddiannau Staff. Atebodd y Swyddog Monitro fod prif waith y pwyllgor yn ymwneud ag ymddygiad aelodau ac na fyddai'n awyddus i weld y Pwyllgor Safonau yn mynd i mewn i faes disgyblu staff. Fodd bynnag, ni cheid unrhyw drosolwg o'r polisïau staff, oni fo'r Prif Bwyllgor Craffu yn digwydd gofyn am adroddiad, a chan fod y polisïau hynny'n ymdebygu i'r polisïau cyfatebol ar gyfer aelodau, gallai'r pwyllgor hwn edrych arnynt. Nododd hefyd fod y Pwyllgor Archwilio yn edrych ar y Polisi Canu'r Gloch o bryd i'w gilydd, a phe teimlai'r pwyllgor hwn fod hynny'n rhywbeth addas i edrych arno, byddai'n rhaid bod yn ofalus rhag ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio hefyd.

Awgrymodd aelodau fod y Polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau yn glir o fewn maes gwaith y pwyllgor hwn ac awgrymwyd gadael y polisïau eraill i'w hystyried yn ôl disgresiwn y Swyddog Monitro wrth i'r gwaith o adolygu'r Cyfansoddiad fynd rhagddo.

**PENDERFYNWYD**

- **(a) Ychwanegu'r Polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau at gylch gorchwyl y pwyllgor hwn.**
- **(b) Bod y Polisi Rhoddion a Lletygarwch Staff, y Polisi Buddiannau Staff a'r Polisi Canu'r Gloch i'w hystyried yn ôl disgresiwn y Swyddog Monitro wrth i'r gwaith o adolygu Cyfansoddiad y Cyngor fynd rhagddo, ond gan ail-ystyried y sefyllfa pe cyfyd unrhyw fater yn ystod y flwyddyn.**

## 6. RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor ystyried pa bynciau y dylid eu cynnwys yn ei Raglen Waith ar gyfer 2011/12.

'Roedd yr adroddiad yn nodi rhai pynciau posibl ac awgrymodd yr aelodau gynnwys dau bwnc ychwanegol sef:-

- Adroddiad ar y Polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau (cyfarfod Hydref);
- Adroddiad ar sut mae'r newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor yn effeithio ar y Pwyllgor Safonau (cyfarfod Ionawr neu Fawrth 2012).

**PENDERFYNWYD cynnwys y pynciau a ganlyn ar raglen waith y pwyllgor ar gyfer 2011/12:-**

**4 Gorffennaf 2011**

- **Hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad**
- **Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon**
- **Adroddiad o Ddigwyddiad Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru**
- **Adroddiad ar honiadau yn erbyn aelodau**

**10 Hydref 2011**

- **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau**
- **Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru**
- **Adroddiad ar honiadau yn erbyn aelodau**
- **Adroddiad ar y Polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau**

**16 Ionawr 2012**

- **Adroddiad ysgrifenedig ar Gynhadledd Safonau Cymru 2011**
- **Adroddiad ar honiadau yn erbyn aelodau**
- **Adroddiad ar sut mae'r newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor yn effeithio ar y Pwyllgor Safonau (neu i gyfarfod Mawrth)**

**26 Mawrth 2012**

- **Adroddiad ar honiadau yn erbyn aelodau**

**7. GWEITHDREFN GWRANDAWIADAU'R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynwyd – fersiwn diwygiedig o adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor gymeradwyo amlinelliad o weithdrefn gwrandawiadau ynghyd â sampl o holiadur i'w gwblhau gan yr aelod sy'n destun y gŵyn a sampl o rybudd o benderfyniad gan y Pwyllgor Safonau.

Eglurwyd bod yr adroddiad diwygiedig yn ffrwyth gwaith ychwanegol, gan gynnwys edrych ar weithdrefnau cynghorau eraill, a bod y newidiadau i'r adroddiad gwreiddiol wedi'u hamlygu mewn print bras.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r weithdrefn gwrandawiadau gyda'r newidiadau a ganlyn:-**

- **Y dylid cynnig un dyddiad i gychwyn ar gyfer gwrandawiad a rhoi cyfle i'r aelod sy'n destun y gŵyn ymateb. Os bydd ef / hi yn gwrthod y dyddiad hwn, dylid cynnig ail ddyddiad sydd heb fod yn rhy agos at y dyddiad cyntaf. Os bydd ef / hi yn gwrthod y dyddiad hwn, dylid cynnig trydydd dyddiad sydd heb fod yn rhy agos at y ddau ddyddiad cyntaf. Os bydd ef / hi yn gwrthod y dyddiad hwn, dylid symud ymlaen â'r gwrandawiad yn absenoldeb yr aelod.**
- **Os oes gan aelod ragor na 3 tyst, dylai ef / hi gynnwys y manylion perthnasol ar y tudalennau ychwanegol ar ddiwedd yr holiadur (tudalennau 5 a 6).**
- **Diwygio'r frawddeg sy'n cyfeirio at achos o waeledd ar dudalen 4 o'r weithdrefn i ddarllen "*Os yw'r Pwyllgor yn fodlon fod parti yn methu mynychu drwy waeledd ~~corfforol neu feddyliol neu amhariad~~ a bod hynny yn debygol o barhau am gyfnod hir, gall y Pwyllgor wneud y trefniadau sydd yn ymddangos fel y rhai gorau i ddelio gyda'r mater yn deg*".**
- **Y dylid neilltuo diwrnod cyfan ar gyfer gwrandawiad.**
- **Y dylid darparu sgript ar gyfer y Cadeirydd.**
- **Y dylid rhoi rhybudd clir ymlaen llaw i'r ddwy ochr y gall unrhyw wybodaeth newydd a gyflwynir ar y diwrnod gael ei diystyru.**
- **Y bydd y pwyllgor yn rhoi ystyriaeth i'r ffaith bod aelod sy'n destun y gŵyn wedi cydnabod ymlaen llaw ei fod ar fai.**
- **Y dylid cynnwys cwestiwn ychwanegol ar ddechrau'r holiadur, sef *"Ydych chi'n bwriadu gwrthwynebu'r cyhuddiad yn eich erbyn?*"**

**8. DATBLYGIADAU DIWEDDAR YN Y MAES**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor nodi datblygiadau diweddar yng nghyswllt Paragraffau 8(a) a 10(2)(b) o'r Côd Ymddygiad i Aelodau ynghyd â rhagor o wybodaeth ynglŷn â threfniadau Cynhadledd Safonau 2011.

Nododd y Swyddog Monitro ymhellach fod trefnwyr Cynhadledd 2011 wedi gofyn am ei barn a ddylid cynnal un o weithdai'r gynhadledd yn Gymraeg. Pwysleisiodd aelodau y dylid trefnu gweithdy drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yna cyfeiriodd y Swyddog Monitro at baragraff 10(2)(b) o'r Côd Ymddygiad, oedd yn ymwneud â'r gwrthdaro rhwng rôl cynghorydd fel aelod lleol a'i rôl yn gwneud penderfyniadau ar ran yr awdurdod. Eglurodd y daethpwyd i gasgliad yng Nghynhadledd Safonau 2008 mai bwriad y paragraff oedd sicrhau na fyddai aelodau o'r cabinet, wrth gymryd penderfyniadau dan hawliau dirprwyedig, yn gwneud hynny i ffafrio materion o fewn eu ward eu hunain. Fodd bynnag, 'roedd Panel Dyfarnu Cymru wedi penderfynu mewn achos dilynol fod y paragraff hefyd yn berthnasol i sefyllfa aelod lleol ar Bwyllgor Cynllunio. 'Roedd gan y penderfyniad hwn oblygiadau pellgyrhaeddol i rôl aelodau lleol ac i ddehongliad y Côd Ymddygiad gan ei fod yn atgyfodi'r ansicrwydd o ran pryd y dylid gwahardd aelodau lleol rhag pleidleisio ar faterion o fewn eu ward. Gofynnodd y Swyddog Monitro am farn yr aelodau ar y mater hwn, ond nid oedd yna deimladau cryf o gwmpas y bwrdd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**9. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i**

**diffinnir ym mharagraff 18C, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd ei fod yn ymwneud â thrafodion y Pwyllgor Safonau wrth ddod i benderfyniad ar fater a gyfeiriwyd ato. Credir na ddylid datgelu'r wybodaeth rhag ofn i unrhyw gyhoeddusrwydd ynglŷn â'r achos ragfarnu sefyllfa'r cynghorydd cyn unrhyw wrandawiad. Fel canlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**10. ADRODDIAD OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU AR YMCHWILIAD I GŴYN YN ERBYN Y CYNGHORYDD 'A' O GYNGOR GWYNEDD**

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Priodoldeb yn gofyn i'r pwyllgor ystyried adroddiad yr Ombwdsmon a dod i benderfyniad yn unol â gofynion y rheoliadau perthnasol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y dystiolaeth yn adroddiad yr Ombwdsmon ynghyd â'i gasgliadau, ac ar sail y dystiolaeth a'r casgliadau hynny, cynigiodd nad oedd dewis gan y pwyllgor ond symud ymlaen i gynnal gwrandawiad llawn.

Nodwyd bod angen cywiro'r flwyddyn ym mharagraff 75 o adroddiad yr Ombwdsmon i ddarllen 2010 yn hytrach na 2009.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Bod unrhyw berson sy'n destun yr ymchwiliad yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, mewn perthynas â chasgliadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad ei fod wedi methu, neu y gallai fod wedi methu, â chydymffurfio â chôd ymddygiad yr awdurdod perthnasol.**

**(b) Galw cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Safonau i ystyried a phenderfynu ar y mater.**

**(c) Na ystyrir ei bod yn angenrheidiol i'r Ombwdsmon fynychu'r gwrandawiad i gyflwyno'r adroddiad ac / neu i egluro unrhyw faterion sydd ynddo.**

**(ch) Gosod dyddiad ar gyfer cynnal y gwrandawiad gan neilltuo'r diwrnod cyfan ar ei gyfer.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 4.00pm.